

From: "Cllr. W Gwyn Hopkins"

Date: 8 Hydref 2016 am 15:33:00 GMT+1

To: Alun Davies AM

Subject: Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Llangennech.

Annwyl Mr Davies,

Rydym yn ysgrifennu atoch ynglŷn â chynllun Cyngor Sir Caerfyrddin i uno'r ddwy ysgol dwy ffrwd bresennol yn Llangennech a chreu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar yr un safle.

Mae'r tabl yn yr ymlyniad yn rhoi'r 14 prif reswm pam yr ydym ni - Cynghorwyr Sir ward Llangennech - yn cefnogi'r cynllun yn frwd iawn.

Yn anffodus rydym yn craffu fod yna gryn wrthwynebiad i'r cynllun ymysg aelodau'r Grŵp Llafur ar y Cyngor Sir, er waetha'r ffaith mae cefnogi a gweithredu polisi Llywodraeth Lafur Cymru (a WESP y Cyngor Sir) fyddai gweithredu'r cynllun. Gofynnwn ichi'n garedig i geisio dylanwadu ar y Grŵp trwy ddwyn perswâd ar yr aelodau i gefnogi polisi eu llywodraeth nhw ei hunain. Gwell fyth fyddai petai Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo'r Grŵp i gefnogi'r cynllun er, efallai, nad yw hyn yn bosibl.

O'r braidd y gellir gorbwysleisio pwysigrwydd sefydlu ysgol Gymraeg yn Llangennech o ran hwyluso ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr ac, yn wir, ar draws Cymru. Mae hwn yn achos prawf fydd yn gosod cysail i'w ddilyn o fewn y gyfundrefn addysg yn y sir ac yn sicr o gael effaith ddifawr ar ddyhead Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Go debyg eich bod wedi clywed fod yna llawn dwrn o wrthwynebwyr i'r cynllun, uchel iawn eu cloch, ym mhentref Llangennech, gyda nifer heb blant yn un o'r ddwy ysgol. Fodd bynnag, prin iawn yw'r dadleuon rhesymegol a geir ganddynt (Cyngorydd Llafur ar Gyngor Cymuned Llangennech yw un o'r rhai mwyaf blaenllaw). Go brin fod eu cyhuddiadau gwrthun o effaith sefydlu ysgol Gymraeg yn y pentref, sef y byddai'n creu "discrimination", "segregation", "sectarianism", "apartheid" a rhannu'r gymdeithas yn gredadwy. Mae Ysgol y Bryn - ysgol cyfrwng Saesneg - yn yr un ward, ond does dim son eu bod yn gwrthwynebu honno am yr un rhesymau! Nid oes rhithyn o dystiolaeth fod hyd yn oed un o'r 91 ysgol cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg (cyfnod cynradd) yn y Sir yn achosi unrhyw fath o rwyg yn y gymuned o gwbl.

Oherwydd pwysigrwydd aruthrol yr achos yma o sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Llangennech o ran adfer y Gymraeg yng Nghymru, mae gwir angen cymorth Llywodraeth Cymru i wireddu'r cynllun. Hefyd, mae Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad Llanelli yn ddistaw iawn ynglŷn â'r mater ac y mae suon o gwmpas eu bod yn wamal yn ei gylch ac, hyd yn oed, yn cefnogi'r protestwyr. Da o beth fyddai clywed beth yn union yw eu safbwynt ar y mater.

Dymuniadau gorau,

Gwyn Hopkins a Gwyneth Thomas

O.N. Fe fydd Gwyn yn y cyfarfod fyddwch yn cynnal gyda Fforwm Iaith Sir Gâr yn “Yr Atom” yng Nghaerfyrddin ar ddydd Llun 31 Hydref. Efallai fydd yna gyfle iddo gael gair gyda chi yno.